**Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus**

**Buddsoddiad Llywodraeth Cymru yn Isadeiledd Band Eang y Genhedlaeth Nesaf**

**Ymateb Llywodraeth Cymru**

Mae'r prosiect mwyaf blaenllaw ar gyfer buddsoddi mewn Isadeiledd Band Eang y Genhedlaeth Nesaf, sef Cyflymu Cymru, yn parhau i sicrhau y gall cartrefi a busnesau ym mhob cwr o Gymru fanteisio ar fand eang cyflym iawn. Erbyn mis Hydref 2015, roedd tua 532,000 eiddo wedi cael mynediad i fand eang cyflym iawn o ganlyniad i'r prosiect. Mae'r rhain yn eiddo na fyddai wedi gallu cael mynediad i fand eang cyflym iawn fel arall. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod cynnydd yn cael ei wneud.

Mae'r Pwyllgor yn pwysleisio rheolaeth y contract. Yn enwedig, mae'n nodi'r darpariaethau yn y contract sy'n diogelu buddsoddiad y sector cyhoeddus ac yn trosglwyddo'r risg i BT. Hefyd, mae'n annog y dylid rhannu'r rhain ar draws Llywodraeth Cymru.

Mae'r adroddiad hefyd yn cydnabod yr anhawster y dasg, ac mae'n iawn i wneud hynny: mae'r prosiect ar raddfa fawr iawn ac mae'r heriau sydd ynghlwm wrth ddarparu gwybodaeth am gyflwyno prosiect o'r maint a'r natur hwn.

**Argymhelliad 1:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu sicrwydd na fydd yr estyniad i'r prosiect yn arwain at oedi pellach ar gyfer adeiladau a gafodd eu cynnwys yn y contract gwreiddiol ac yn parhau i fonitro cynnydd BT i sicrhau bod y prosiect yn cael ei gyflwyno o fewn yr amserlen ddiwygiedig.

**Ymateb**

Derbynnir yn rhannol: Nid yw'r Pwyllgor wedi llawn werthfawrogi'r heriau sydd ynghlwm wrth gyflawni prosiect mor gymhleth ac ar raddfa mor fawr. Ni fyddai dim ond ychwanegu'r eiddo newydd at ddiwedd y gwaith gwreiddiol yn galluogi BT i gyflawni'r eiddo sy'n weddill yn y ford fwyaf effeithlon a chost-effeithiol, ac ni fyddai'n sicrhau gwerth am arian i'r pwrs cyhoeddus.

Mae'r eiddo newydd o fewn yr estyniad o'r prosiect wedi'u 'blendio' i mewn i'r ardal ymyrryd gyflawn ac mae cynllun gweithredu hollol newydd wedi'i baratoi er mwyn sicrhau y caiff gymaint o eiddo â phosib yng Nghymru fanteisio ar y cynllun. Bydd y cynllun newydd yn golygu bod yr amserlenni ar gyfer darparu i rai eiddo yn newid – mae hynny'n anochel.

Y fantais o'r blendio hwn, a hynny o dan y contract cyfredol, yn hytrach na gorfod negodi o'r newydd, yw y gellir cadw'r manteision a'r gweithdrefnau diogelu y mae archwilwyr wedi cydnabod eu bod yn gryfder sylweddol yn y contract, sy'n unigryw i Gymru. Gallai ail-negodi'r contract fod wedi effeithio ar

elfennau eraill o’r contract, gan arwain at sefyllfa lai ffafriol i Lywodraeth Cymru, o ran lefel yr adfachu er enghraifft.

Caiff cynnydd a wneir o dan y contract ei fonitro drwy gyfres o gyfarfodydd rheolaidd rhwng Llywodraeth Cymru a BT. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd bob pythefnos i fynd i’r afael â materion gweithredol, cyfarfodydd bwrdd gweithredu misol i drafod y gwaith ac i wneud penderfyniadau gweithredol ac, yn olaf, cyfarfod bwrdd y rhaglen lle caiff penderfyniadau strategol eu gwneud. Mae bwrdd y rhaglen hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth gan y diwydiant yn ehangach.

**Argymhelliad 2:** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu manylion ar y cynllun i ddisodli Mynediad i Fand Eang Cymru ac i ddarparu mynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf i bob safle ar draws Cymru.

**Ymateb**

Derbynnir: Cafodd y cynllun Allwedd Band Eang Cymru ei lansio ar 4 Ionawr 2016. Gwnaeth y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg ddatganiad ysgrifenedig ar 15 Rhagfyr yn manylu ar y cynllun newydd:

Bydd y cynllun newydd yn cyllido (neu’n rhannol gyllido) costau gosod cysylltiadau band eang a fydd yn gweddnewid cyflymderau lawrlwytho ar gyfer cartrefi a busnesau yng Nghymru. Byddai unrhyw eiddo preswyl neu eiddo busnes nad yw’n gallu cael gwasanaeth 30 megabeit yr eiliad yn gymwys i gael taleb. Mae dwy lefel o gyllid ar gael, yn dibynnu ar anghenion y defnyddiwr a’r cyflymder sydd ei angen; £400 ar gyfer cyflymderau lawrlwytho rhwng 10 a 20 megabeit yr eiliad, a £800 ar gyfer cyflymderau lawrlwytho o 30 megabeit ac uwch. Bydd y cynllun yn ‘niwtral’ o ran technoleg; bydd yn defnyddio ystod o dechnolegau gan gynnwys lloeren, diwifr a 4G i sicrhau band eang cyflym iawn.

**Argymhelliad 3:** Mae’r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati i gysylltu â darparwyr gwasanaethau i ganfod y safleoedd hyn ac i ddod o hyd i ateb i gyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf i’r safleoedd anodd eu cyrraedd hynny.

**Ymateb**

Derbynnir: Mae’r cynllun Allwedd Band Eang Cymru newydd yn darparu datrysiad i eiddo yng Nghymru sydd angen cysylltiad band eang cyflym iawn. Yn ogystal, fe archwiliwn sut y gellid defnyddio’r gronfa fuddsoddi, sydd wedi’i chreu gan adfachu cyllid, i ehangu band eang cyflym iawn ymhellach. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymgysylltu â darparwyr rhyngrwyd lleol a chenedlaethol.

**Argymhelliad 4:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar y cynnydd o ran cyflwyno i safleoedd anodd eu cyrraedd ddim hwyrach na mis Medi 2016, gan gynnwys:

- y wybodaeth ddiweddaraf o ran cyflawni 100 megabeit yr eiliad ar gyfer 40 y cant o safleoedd;
- gwybodaeth am pryd fydd pobl yn cael gwybod os nad ydynt yn debygol o gael band eang y genhedlaeth nesaf drwy'r contract Cyflymu Cymru;
- manylion yr opsiynau fforddiadwy sydd ar gael iddynt;
- nifer y safleoedd sydd wedi'u pasio; a'r
- wybodaeth ddiweddaraf ar yr argymhellion yn adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru.

**Ymateb**

Derbynnir.

**Argymhelliad 5:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn darparu cadarnhad ynghylch llwyddiant cyflwyno Cyflymu Cymru, ac a yw wedi cael yr holl gyllid ERDF sydd ar gael o ganlyniad i hynny.

**Ymateb**

Derbynnir: Mae Prosiect Cyflymu Cymru yn llwyddiant ysgubol. Erbyn diwedd mis Hydref, roedd tua 532,000 eiddo wedi cael mynediad i fand eang cyflym iawn o ganlyniad i'r prosiect. Mae'r rhain yn eiddo na fyddai wedi gallu cael mynediad i fand eang cyflym iawn fel arall. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod cynnydd yn cael ei wneud. Mae darpariaeth BT yn parhau i fodloni targedau chwarterol y contract.

Fel y mae'r adroddiad yn pwysleisio, a hynny'n gywir, cafodd yr amserlen wreiddiol ar gyfer cyllid Ewropeaidd ei chwtogi o chwe mis. Cafodd hyn effaith sylweddol. Erbyn diwedd y rownd gyllido, roedd cyllid ERDF ar gyfer eiddo wedi'i dynnu i lawr. Cytunodd WEFO y gellid gwneud cais arall o dan y rhaglen cronfeydd strwythurol newydd.

**Argymhelliad 6:** Mae'r Pwyllgor hefyd yn argymell y dylai Llywodraeth Cymru fyfyrio ar y gwersi a ddysgwyd o gynllunio a rheoli contract Cyflymu Cymru'n gyffredinol yn ei chanllawiau ei hun ar reoli rhaglenni a phrosiectau.

**Ymateb**

Derbynnir: Caiff nifer o adolygiadau 'gwersi a ddysgwyd' eu cynnal gan dîm y prosiect, er enghraifft ar gyfer yr UE fel rhan o'i phrosesau cwblhau prosiect. Caiff yr hyn a ddaw o'r rhain ei fwydo i'r fframwaith 'gwersi a ddysgwyd' corfforaethol er mwyn rheoli'r rhaglen a'r prosiect.

Bydd swyddogion yn gweithio gyda Gwerth Cymru i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o ran caffael, a bod y gwersi hynny'n cael ei rhannu â phawb sydd â chyfrifoldeb dros gaffael o fewn Llywodraeth Cymru.

Bydd Llywodraeth Cymru'n rhannu'r gwersi a ddysgwyd gyda gweithwyr ym maes contractau a chaffael ar draws Llywodraeth Cymru a'r sector cyhoeddus ehangach er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r ford yr aeth Cyflymu Cymru ati.

**Argymhelliad 7:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod yr holl staff perthnasol yn cael hyfforddiant gloywi ar drafodaethau contract yn ôl y gofyn a bod yr holl ganllawiau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd a'u bod ar gael i staff.

**Ymateb**

Derbynnir: Fel rhan o'r adolygiadau gwersi a ddysgwyd, bydd tîm y prosiect yn rhannu gwersi a ddysgwyd o ran negodiadau'r contract gyda gweithwyr ym maes contractau a chaffael ar draws Llywodraeth Cymru. Caiff y gwersi hyn hefyd eu rhannu ag arweinwyr o fewn Llywodraeth Cymru yn y meysydd hyn er mwyn iddynt eu hystyried mewn perthynas â datblygu proffesiynol parhaus.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno hyfforddiant gorfodol ym maes rheoli contractau fel rhan o'i rhaglen Paratoi ar gyfer y Dyfodol. Mae hefyd yn cyflwyno pecyn cymorth yn y maes. Hefyd fel rhan o'r rhaglen hon, caiff hyfforddiant negodi contractau ei ddarparu i bob gweithiwr ym maes caffael o fewn Llywodraeth Cymru.

**Argymhelliad 8:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda BT, fel mater o flaenoriaeth, er mwyn gwella effeithiolrwydd ei strategaeth gyfathrebu, gan gynnwys y wefan, ar gyfer gweddill y cyflwyniad a bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y newidiadau a wnaed i'r strategaeth i fynd i'r afael â'n pryderon.

**Ymateb**

Derbynnir: Mae'r prif feysydd o bryder a nodir gan y Pwyllgor yn ymwneud â darparu gwell gwybodaeth o ran pryd y gall cartrefi a busnesau ddisgwyl gallu cael mynediad i fand eang cyflym iawn drwy brosiect Cyflymu Cymru. Fel y mae'r adroddiad yn cydnabod, mae sawl trefniant ar waith gan gynnwys: rhoi llenyddiaeth drwy'r drws yn yr ardaloedd hynny sydd ar fin mynd yn fyw, hysbysiadau dros e-bost i fwy na 30,000 o bobl sydd wedi cofrestru ar y wefan, gwybodaeth ar y cyfryngau cymdeithasol, cysylltiadau cyhoeddus yn lleol a'r nodwedd 'pryd a ble' ar y wefan.

Yn ogystal, ceir hysbysebion a digwyddiadau i ysgogi pobl i fanteisio ar y cyfle i godi ymwybyddiaeth am argaeledd band eang ac i gyfeirio pobl at y wefan am ragor o wybodaeth. Mae'r ffaith fod llawer wedi cofrestru ar-lein a nifer yr ymweliadau â'r wefan yn brawf fod hyn yn llwyddiant.

Mae'r adroddiad hefyd yn pwysleisio'r anawsterau o ran darparu'r dyddiadau y bydd pobl yn gallu cael mynediad i fand eang cyflym iawn arnynt. Mae hyn oherwydd maint y rhaglen a'r anwadalrwydd yn y cynllun gweithredu – gall dyddiadau gweithredu newid am amryw resymau, gan gynnwys argaeledd safleoedd ar gyfer cabinetau, heriau peirianneg ac, fel a nodir yn yr adroddiad, yr angen i ddelio â rhywogaethau gwarchodedig, megis madfallod dŵr .

Fodd bynnag, mae gwaith wedi'i wneud i wella'r adran 'pryd a ble' ar y wefan. Mae nodwedd newydd wedi'i ychwanegu sy'n rhoi gwell syniad i ymwelwyr â'r safle pryd fydd y prosiect ar gael iddynt. Wrth roi eu cod post neu rif ffôn eu heiddo, dangosir ym mha gam y mae eu heiddo o ran y cynllun gweithredu: er enghraifft, y cam cynllunio, y cam adeiladu ac ati. Hefyd, nodir pa mor hir y mae'n debygol o fod cyn i'w cabinet lleol fynd yn fyw. Ar hyn o bryd, dim ond ar gyfer eiddo a fydd yn derbyn 'ffeibr i'r cabinet' y mae hyn. Fodd bynnag mae datrysiad 'ffeibr i'r eiddo' a leiniau 'cyfnewid yn unig' ar y gweill, disgwylir gallu darparu hyn ym mis Mawrth 2016.

**Argymhelliad 9:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi ystyriaeth, mewn egwyddor, i gynnwys, fel isafswm mewn contractau yn y dyfodol, manylion am dargedau dyheadol a'r disgwyliadau o ran erbyn pryd y dylid eu cyrraedd.

**Ymateb**

Derbynnir: Bydd penderfyniadau ynghylch p'un ai i gynnwys targedau dyheadol mewn perthynas â chontractau yn y dyfodol yn ddibynnol ar destun y contract a natur y gwasanaethau sy'n cael eu caffael.

**Argymhelliad 10:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y wybodaeth ddiweddaraf yn cael ei rhoi i'r Pwyllgor, am y gwaith i wella cyfathrebu a marchnata ynghylch manteision mynediad at fand eang cyflym iawn,
heb fod yn hwyrach na mis Medi 2016.

**Ymateb**

Derbynnir.